Ein Treftadaeth
Our Heritage

# Eglwys Sant Beuno, Clynnog Fawr

## St Beuno's Church, Clynnog Fawr

Cafodd Eglwys Sant Beuno ei hadeiladu yn yr 16eg ganrif gan mwyaf, ond saif ar safle adeilad llawer cynharach. Cafodd Sant Beuno o'r 7fed ganrif ei gladdu yma, yn y fan lle mae'r capel a'r eglwys yn uno. Stopiai pererinion yr oesoedd canol yma i dalu teyrnged ar eu ffordd i Ynys Enlli, ac yn ôl pob sôn, digwyddodd sawl gwyrth iachaol yma. Cafodd arch Beuno ei dymchwel ym 1856, ond mae rhan o'r bwa oedd uwch ei phen wedi aros. Chwiliwch am y deial haul carreg yn arddull y Gwyddelod yn y fynwent, sy'n dyddio i'r 12fed ganrif mwy na thebyg, sef adeg teyrnasiad Gruffudd ap Cynan. Ganed Gruffudd yn Nulyn, i dad o Gymru ac i fam oedd yn hanner Gwyddel, hanner Llychlynnaidd. Mae'r deial haul yn atgof o'r cysylltiadau cryf rhwng Cymru ac Iwerddon yn ystod teyrnasiad Gruffudd.

**Yng nghanol Clynnog Fawr ar yr A499**

St Beuno's was mainly built in the 16th century, but stands on the site of a much earlier building. Seventh century Saint Beuno was buried here, at the spot where the chapel and church adjoin. Medieval pilgrims stopped here to pay their respects on their way to Bardsey Island, and many miracles of healing are said to have taken place. Beuno's tomb was demolished in 1856, but part of the arch that surmounted it remains. In the churchyard, look out for the Irish-style sundial, probably dating to the 12th century reign of Gruffudd ap Cynan. Gruffudd was born in Dublin, of a Welsh father and Irish-Viking mother; the sundial is evocative of the links between Wales and Ireland during Gruffudd's reign.

**In the centre of Clynnog Fawr on the A499**

1 **Parcio wrth ymyl y ffordd /** Roadside parking
2 **Capel y Bedd /** Chapel y Bedd
3 **Lleoliad strwythur cynharach y credir mai bedd Sant Beuno ydyw /** Location of earlier structure thought to be the grave of St Beuno
4 **Eglwys Sant Beuno /** St Beuno's Church
5 **Rhan o fwa o arch Sant Beuno /** Section of arch from St Beuno's tomb
6 **Sylfeini /** Foundations

